



Rhif: WG41156

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

**Rhesymoli'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli systemau
llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant**

Mawrth 2021

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad "Rhesymoli'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant" (agorodd ar 20 Tachwedd 2020 a daeth i ben ar 4 Ionawr 2021). Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth gwblhau'r polisi hwn.

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Yr ymatebwyr

Ar y cyfan, cafwyd 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad neilltuo eu sefydliad i un o'r 11 math a nodwyd ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunan-ddynodedig). Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys 10 Awdurdod Lleol, 1 Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu, 1 Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr, 1 gweithredwr cartrefi gofal, a 3 Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cwestiwn 1: A ydych yn cefnogi'r cynnig i symud y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant i Reoliadau Adeiladu 2010? Esboniwch eich rhesymu.

Roedd 15 o'r 16 ymatebydd yn cefnogi'r cynnig i symud y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant i Reoliadau Adeiladu 2010. O'r 15 a gefnogodd y cynnigion, nododd y rhai a roddodd esboniad ychwanegol i gefnogi eu hateb y byddai'r newid hwn yn sicrhau cysondeb ac yn osgoi dryswch ac yn rhesymoli'r ddeddfwriaeth bresennol yn ystyrllon. Nododd yr un ymatebydd nad oedd yn cefnogi'r cynnigion fod systemau diogelwch tân eraill, megis larymau, offer cau drysau a diffoddwyr tân yn darparu'r yswiriant diogelwch bywyd a gall y system dân awtomatig gael ei fandaleiddio.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno na ddylai symud y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant o'r Mesur i Reoliadau Adeiladu 2010 fod â goblygiadau cost negyddol?

Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr (13) yn cytuno na ddylai'r cynnig fod â goblygiadau negyddol o ran costau, ac roedd dau ymatebydd arall yn ansicr o'r goblygiadau o ran costau. Roedd yr un ymatebydd nad oedd yn cytuno o'r farn y byddai costau uniongyrchol i'r diwydiant o osod a chynnal a chadw'r system, a'r potensial ar gyfer costau pellach drwy ddifrod os cânt eu actifadu. Bydd y costau ychwanegol hyn yn golygu y bydd darparwyr yn cynyddu eu ffioedd i Awdurdodau Lleol.

Cwestiwn 3: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau fyddech chi'n meddwl

fyddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Nododd ymatebwyr naill ai nad yw'r mater yn berthnasol i'r cynnig neu na fyddai unrhyw effeithiau.

Cwestiwn 4: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nododd ymatebwyr naill ai nad yw'r mater yn berthnasol i'r cynnig neu na fyddai unrhyw effeithiau.

3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafodd y cynnig gefnogaeth gan bob un heblaw un o'r ymatebwyr, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol mewn perthynas â chostau na'r Gymraeg. Er i un ymatebydd nodi costau, costau oedd y rhain yn gysylltiedig â gosod y system, neu ddifrod yn sgîl camddefnyddio ac nid costau sy'n gysylltiedig â symud y gofyniad i Reoliadau Adeiladu 2010. Gan fod systemau llethu tân awtomatig eisoes yn ofynnol mewn cartrefi gofal i blant drwy Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, mae'r costau gosod a chynnal a chadw yn gost sy'n bodoli eisoes ar ddarparwyr cartrefi gofal. Ni fydd y costau hyn yn newid ar ôl trosglwyddo'r gofyniad i Reoliadau Adeiladu 2010.

Y bwriad felly yw diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 i gynnwys y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi plant. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, daeth yn amlwg bod cymhlethdodau pellach o ran diwygio'r deddfwriaeth, a chyhoeddir ail ymgynghoriad i amlinellu cynigion pellach.

Hyd nes y cyflawnir y newid deddfwriaethol hwn, ystyrir ei bod yn bwysig atgoffa rhanddeiliaid bod y cyngor a ddarperir yng nghylchlythyr 008/2020¹ yn cael ei ddilyn. Hynny yw, mae Mesur Domestig (Diogelwch Tân) Cymru 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gofal i blant gael systemau llethu tân wedi'u gosod. Ystyrir bod system yn cydymffurfio â'r mesur os yw'n dilyn y gofynion a nodir yn nogfen B gymeradwy ar gyfer systemau sy'n ofynnol gan ran 7A o Reoliadau Adeiladu 2010.

¹ <https://llyw.cymru/darparu-systemau-llethu-tan-awtomatig-i-gartrefi-gofal-ar-gyfer-plant-wgc-0082020>